**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 19 Medi 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL (CYFLWYNO'R GWASANAETHAU)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Cyflwyno dogfen ddrafft i'w mabwysiadu gan yr Aelodau fel Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau anffurfiol yr Awdurdod ar gyfer 2005-06. |

1 **Y CEFNDIR**

1.1 Mae Adran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn gwneud gofyniad ar Awdurdodau Gwerth Gorau i *'lunio cynllun perfformiad gwerth gorau am bob blwyddyn ariannol yn unol ag unrhyw orchymyn a wneir neu gyfarwyddyd a roddir (gan yr Ysgrifennydd Gwladol)l'*. Bydd cyfarwyddyd o'r fath fel arfer yn cynnwys cyfeiriadau at gynnwys ac amseriad y Cynllun Perfformiad (a adwaenir fel 'Cynllun Gwella' yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella).

2 **CYFLWYNIAD**

2.1 Ers datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol, mae'r Cynulliad wedi bod yn rhan o ddatblygu fframwaith arbennig Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub. Nid yw eto wedi defnyddio ei bwerau i wneud gorchmynion dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1999 i ddarparu cyfarwyddyd statudol mewn perthynas â Chynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau.

2.2 Mae dogfen ymgynghorol y Cynulliad sy'n rhestru cynigion a chyfarwyddyd ar gyfer y Rhaglen ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi cael ei gohirio oherwydd yr angen i gymryd ystyriaeth o'r adolygiad diweddar i gyfarwyddyd y Rhaglen ar gyfer awdurdodau unedol.

2.3 Ar 28ain Gorffennaf 2005, mewn cyfarfod o'r Grŵp Llywio'r Rhaglen ar gyfer Tân ac Achub, cytunwyd ar drefniadau anffurfiol am y tro ar gyfer llunio ac archwilio Cynlluniau Perfformiad ar gyfer 2005-06. Bydd y trefniadau am y tro hyn yn dod i ben unwaith y bydd cyfarwyddyd a gorchymyn pendant y Rhaglen wedi dod i rym. Disgwylir i hyn ddigwydd ar Ebrill 1af 2006.

3 **GWYBODAETH**

3.1 Mae'r trefniadau anffurfiol yn gwneud gofyniad i'r Cynllun Perfformiad ar gyfer 2005-06 gael ei lunio erbyn diwedd Medi 2005, a dylai gynnwys:

- crynodeb o amcanion strategol a blaenoriaethau yr awdurdod ar gyfer gwella;

3 **GWYBODAETH** *(parhad)*

- y trefniadau ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau'r awdurdod ar gyfer gwella yn 2005-06;
- manylion perfformiad yn 2004-05 a'r targedau ar gyfer 2005-06 mewn perthynas â'r holl Ddangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau.

3.2 Er y dylai'r Cynllun Perfformiad fod yn ddogfen gyhoeddus, y gynulleidfa yn bennaf yw'r Awdurdod ei hun. Heblaw am ei wneud ar gael i bawb sy'n gofyn amdano, nid oes unrhyw ofyniad i gyhoeddi copi papur. Felly, bydd ar gael ar wefan y Gwasanaeth.

3.3 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud eu bod yn bwriadu ysgrifennu at Swyddfa Archwilio Cymru i'w gwahodd i gynnal arolygiad anffurfiol neu archwiliad o'r Cynllun Perfformiad, ac i ofyn am eglurhad o'r costau manwl a'r cyfrifoldeb am dalu. Deellir y byddai archwiliad yn golygu ffioedd i'r Awdurdod Tân ac Achub, tra byddai arolygiad yn denu arian grant oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad.

4. **ARGYMHELLIAD**

Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac yn cymeradwyo'r ddogfen ddrafft (atodiad 1) i'w mabwysiadu fel Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau anffurfiol yr Awdurdod am 2005-06.